# Edifar y Dydd

## Deunyddiau a Gweithgareddau Cefnogi i Athrawon

Mae gweithgareddau dilynol Edifar y Dydd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 3 o'r Fframwaith ABCh ar gyfer pobl ifanc 7 i 19 oed yng Nghymru. Noder: Nid yw'r gweithgareddau isod yn ddilynol ond yn hytrach yn ddewislen i athrawon.

| Gweithgaredd Dilynol<br>Edifar y Dydd | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd | Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh ar gyfer pobl ifanc 7 i 19 oed yng Nghymru | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| **Gweithgareddau rhagarweiniol<br>1a. Jig-so Grŵp** | Ll(Ll)c&th | • Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd | --- |
| **1b. Gweithgareddau Grŵp Matiau Bwrdd** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)s&th | • Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd | • Effeithiau a risgiau ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd |
| **1c. Yr Wyddor Cyffuriau** | Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)casll | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol er mwyn egluro'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith | --- |
| **2. Cofio'r Gyfraith!** | Ll(Ll)s | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol er mwyn egluro'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith | --- |
| **3. Y Bêl Risial** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd<br>Ll(Y)s&th | • Defnyddio gwybodaeth flaenorol er mwyn egluro'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Dangos empathi gyda phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill | • Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach<br>• Effeithiau a risgiau ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd |
| **4. Gweithgaredd Senarios Beth fyddech chi'n ei wneud?** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol | • Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach<br>• Beth maent hwy'n ei gredu sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a'r |


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | benbleth foesol sydd i'w chael mewn sefyllfaoedd bywyd. |
| **5. Gweithgaredd Didoli Effeithiau sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d | • Defnyddio gwybodaeth flaenorol er mwyn egluro'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol | • Effeithiau a risgiau ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd |
| **6. Y Gyfraith a Chosbau** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)y&d | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol | • Effeithiau a risgiau ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd |
| **7. Gweithgaredd Bwrdd Stori** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)sd<br>Ll(D)y&d<br>Ll(D)d&d<br>Ll(Y)ydd | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol er mwyn egluro'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Cyrchu ystod briodol o adnoddau ar gyfer cymorth, cefnogaeth a chyngor | • Deall effeithiau a risgiau defnyddio ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd<br>• Yr agweddau allweddol o'r system cyfiawnder troseddol a sut maent yn berthnasol i bobl ifanc |
| **8. Gweithgaredd Agweddau** | L Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau cyfoedion | • Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach<br>• Sut i ddefnyddio alcohol yn gyfrifol a pheryglon yfed sbri<br>• Beth maent hwy'n ei gredu sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a'r benbleth foesol sydd i'w chael mewn sefyllfaoedd bywyd |


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9. Teulu, Ffrindiau a Chymdeithas** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th | • Gwneud a chadw cyfeillgarwch a dechrau trafod ymddygiad mewn perthynas bersonol | • Datblygu agweddau cadarnhaol tuag atynt hwy eu hunain ac eraill |
| **10.Meddyliau a Theimladau** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(Y)ydd | • Cyfathrebu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol. Defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer ystyriaeth bersonol | • Yr agweddau allweddol o'r system cyfiawnder troseddol a sut maent yn berthnasol i bobl ifanc<br>• Effeithiau a risgiau ystod o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd |
| **11.Tybaco Anghyfreithlon** | Ll(Ll)s<br>Ll(LL)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)sd<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | • Adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau<br>• Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisidau gwybodus yn effeithiol. | • Datblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill<br>• Materion amserol ar lefel leol a byd-eang<br>• Yr effaithiau a'r peryglon sy'n codi wrth ddefnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd. |

## Gweithgareddau Rhagarweiniol

### 1a. Gweithgaredd Jig-so Grŵp

Er mwyn cysylltu ac adolygu'r dysgu blaenorol lawrlwythwch y lluniau cymeriadau 'Jig-so' (adnodd 1a). Torrwch bob llun cymeriad A5 yn 4 darn a rhannwch y darnau ar hap o amgylch y dosbarth er mwyn cwblhau gweithgaredd didoli grŵp. Gofynnwch i'r dosabrth lunio grwpiau yn ôl y darnau o'r lluniau sy'n cyfateb.

### 1b. Gweithgaredd Matiau Bwrdd

Lawrlwythwch y matiau bwrdd (adnodd 1b). Ar bob mat mae llun un o gymeriadau'r ffilm Difaru'r Dydd a phedair adran i ysgrifennu. Rhowch un i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu mewn un adran - gan ateb y cwestiwn, 'Beth ydych chi'n ei gofio am y person hwn yn y ffilm?' Cwblhewch y daflen gyda'r grwpiau fel ymarferiad carwsél. Yna gall bob grŵp roi adborth i weddill y dosbarth.

### 1c. Gweithgaredd Yr Wyddor Cyffuriau

Mewn grwpiau cwblhewch yr ymarfer wyddor cyffuriau (adnodd 1c) er mwyn sefydlu dysgu blaenorol naill ai yn llafar neu fel ymarferiad ysgrifenedig. Cynhwyswch yr enw stryd a chemegol, taclau cyffuriau ac ati. Adborth dosbarth a thrafodaeth. Cewch wared ar unrhyw gamsyniadau.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## 2. Cofio'r Gyfraith

Fel rhagarweiniad i gysylltu ac ail-atgoffa, gall yr athro/athrawes ddefnyddio'r cardiau fflach sylweddau (adnodd 2a) i ailadrodd gwaith y Swyddog Heddlu Ysgolion (SHY).
Trafodwch gyda'r dosbarth cyfan:

- Beth yw'r enw cywir ar gyfer y cyffur yn y llun?
- Beth yw enw y cyffur ar stryd?
- Pa ddosbarth yw y cyffur?
- Beth yw peryglon defnyddio cyffuriau annosbarthedig a/neu Sylweddau Seicoweithredol?

Y cardiau fflach a ddarperir yw:

2a. Amffetaminau
2b. Canabis
2c. Cocên
2d. Heroin
2e. LSD
2f. Ecstasi
2g. Sylweddau Seicoweithredol

## 3. Gweithgaredd y Bêl Risial

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Eglurwch i'r disgyblion bod angen iddynt gwblhau'r gweithgaredd hwn fel pe baent yn diweddaru proffil Facebook Gareth ymhen 5 mlynedd. Gofynnir i hanner y grwpiau drafod a chwblhau'r ddalen gweithgaredd cadarnhaol A3 (adnodd 3a) er mwyn dangos canlyniadau cadanrhaol posibl dyfodol Gareth; gofynnir i hanner arall y grwpiau drafod a chwblhau'r ddalen gweithgaredd negyddol A3 (adnodd 3b) er mwyn dangos canlyniadau negyddol bywyd Gareth. Yna gall pob grŵp gyflwyno eu syniadau i weddill y dosbarth.

## 4. Beth Fyddech Chi'n Ei Wneud? Gweithgareddau Senario

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau; rhowch un senario (adnodd 4a) i bob grŵp. Caniatewch ddeg munud ar gyfer trafodaeth ac yna gofynnwch i bob grŵp ddewis llefarydd ar ei ran i gyflwyno eu hatebion i'r dosbarth cyfan.

Senario 1

Rydych yn trefnu bod ffrindiau yn aros y nos yn eich tŷ ac rydych yn edrych ar YouTube gyda'ch ffrindiau. Wrth i chi wylio mae neges yn ymddangos yn hysbysebu sylwedd a labelir 'ddim i'w gymryd gan berson' ond rydych wedi clywed ei fod yn rhoi 'anterth' i chi. Mae un o'ch ffrindiau yn awgrymu y byddai'n hwyl i archebu ychydig ohono.

1. Beth fyddech chi'n ei wneud?
2. Os penderfynwch chi brynu, beth allai'r canlyniadau fod?
3. Sut allech ddweud na?

**Awgrymiadau Athro/Athrawes**
Nid yw'r ffaith ei bod hi'n hawdd cael gafael ar gyffuriau ar y rhyngrwyd yn eu gwneud yn ddiogel. Nid yw'r wybodaeth a roddir yn gredadwy.
Dim ond diddordeb mewn gwneud elw sydd gan y bobl sy'n gwneud y cyffuriau hyn, nid lles y rhai sy'n prynu. Mae llawer o'r cyffuriau 'ar werth' hyn wedi'u labelu gyda 'ddim i'w gymryd gan berson' fel bod delwyr (gwerthwyr neu gyflenwyr) yn gallu mynd heibio'r gyfraith ac osgoi'r cyfrifoldeb am unrhyw ganlyniadau neu risgiau negyddol.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

Senario 2

Rydych mewn parti yn nhŷ eich ffrind ac yn darganfod cyffuriau presgripsiwn yng nghwpwrdd yr ystafell ymolchi. Rydych yn eu dangos i ffrind sy'n meddwl y gallai fod yn hwyl i'w rhoi yn niod rhywun a gweld beth sy'n digwydd.

1. Beth fyddech chi'n ei wneud?
2. Os penderfynwch chi sbeicio diod eich ffrind, beth allai'r canlyniadau fod?
3. Sut allech chi ddweud na?

**Awgrymiadau Athro/Athrawes**
Mae mynd â chyffuriau o'r cwpwrdd yn ddwyn.
Mae'n drosedd i rywun fod ym meddiant meddyginiaeth a ragnodwyd i rywun arall.
Mae'n drosedd i roi sylwedd gwenwynig i rywun arall
Mae risg gynyddol os caiff sylweddau cyfreithlon neu anghyfreithlon eu cyfuno ag alcohol neu unrhyw sylwedd sy'n achosi 'anterth'; yn cynnwys y perygl o farw.

Senario 3

Rydych yn y parc gyda grŵp o ffrindiau hŷn sydd i gyd yn yfed alcohol. Maent yn cynnig diod i chi. Pan fyddwch yn gwrthod maent yn rhoi pwysau arnoch i ymuno.

1. Beth fyddech chi'n ei wneud?
2. Os penderfynwch dderbyn, beth allai'r canlyniadau fod?
3. Sut allech chi ddweud na?

Senario 4

Dechreuodd un o'ch ffrindiau ysmygu canabis y llynedd; erbyn hyn mae'n ddefnyddiwr cyson. Mae wedi dod yn oriog ac yn paranoid, yn colli ysgol ac mae ei waith yn dioddef. Mae'n dal ati i ofyn i chi roi benthyg arian iddo.

1. Beth fyddech chi'n ei wneud?
2. Beth allai canlyniadau eich gweithred fod?
3. Sut allech chi ddweud na?

**Awgrymiadau Athro/Athrawes**
Mae Canabis yn Gyffur Rheoledig Dosbarth B.
Mae'r gosb am droseddau cysylltiedig â Canabis yn amrywio rhwng 5 a 14 mlynedd o garchar.
Bydd y ddedfryd yn aros ar record rhywun AM OES.
Os rhowch arian i rywun i brynu cyffuriau gallech fod yn cyflawni trosedd - hynny yw, gellir ystyried eich bod yn cynorthwyo ac ategu.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

Senario 5

Rydych gyda grŵp o ffrindiau sy'n casglu o amgylch siopau. Mae swyddog heddlu yn gweld pecyn bach yn cael ei drosglwyddo ac mae'n amau bod gennych gyffur anghyfreithlon yn eich meddiant. Yn eich pecyn mae gennych gyffur yr ydych chi'n tybio sy'n gyfreithlon.

1. Beth fyddech chi'n ei wneud?
2. Beth allai canlyniadau eich gweithred fod?
3. Ar ba bwynt y gallech fod wedi osgoi'r sefyllfa hon?

**Awgrymiadau Athro/Athrawes**
Mae gan swyddogion heddlu y pŵer i stopio a chwilio os ydynt yn amau bod rhywun ym meddiant cyffur anghyfreithlon. Os yw'r person dan 18 oed ac ym meddiant tybaco neu alcohol, gellir atafaelu'r rhain.
Ar yr adeg pan mae'r swyddog heddlu yn y stryd yn sgwrsio â'r person ifanc, ni fydd yn gwybod a yw'r sylwedd yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, felly gellir arestio'r person. Yna caiff y sylwedd ei ddadansoddi. Mae llawer o Sylweddau Seicoweithredol yn cynnwys cymysgeddau o gyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon. Nid yw anwybodaeth yn esgus dros fod ym meddiant sylweddau anghyfreithlon.
Os ceir euogfarn gallai gael canlyniadau difrifol ar fywyd person.

## 5. Effeithiau sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a dosbarthwch fatiau bwrdd (adnodd 5a) a'r cardiau effaith (adnodd 5b). Eglurwch i'r disgyblion bod nifer o effeithiau a all ddeillio o gymryd cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon (ar y pwynt hwn efallai y bydd disgyblion yn cynnig enghreifftiau o'r ddau).
Gellir dosbarthu'r effeithiau hyn fel Cymdeithasol, Emosiynol ac Iechyd. Gofynnwch i'r disgyblion ddidoli'r cardiau effeithiau (5b) o dan wahanol gategoriau e.e. byddai cyfog yn effaith Iechyd. Gallai diffyg swildod fod yn effaith Gymdeithasol.
Tra bod y grwpiau yn gweithio ar gategoreiddio'r effeithiau, dylai'r athro/athrawes fonitro a chefnogi trafodaethau'r disgyblion. Yn ystod y sesiwn adborth gofynnwch i bob grŵp yn ei dro ddarparu enghreifftiau o'r gwahanol gategorïau, Cyfeiriwch at y daflen awgrymiadau athrawon (adnodd 5c) i gael enghraifftiau o gyffuriau sydd fwyaf tebygol o gael yr effeithiau hyn.
*DS. Dylid ond trafod enghreifftiau o gyffuriau os yw'r plant yn eu gwirfoddoli er mwyn peidio ag annog arbrofi neu gywreinrwydd.*
I gloi, pwysleisiwch y gall cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon gael canlyniadau difrifol a all arwain yn y pen draw at farwolaeth mewn rhai achosion.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## 6. Gweithgaredd y Gyfraith a Chosbau

Cyflwynwch y pwnc drwy naill ai ymarferiad dosbarth neu grŵp yn seiliedig ar ddalen waith cyfraith a chosbau cywir / anghywir. Gellir defnyddio'r cwis hwn mewn nifer o ffyrdd gwahanol:

a) Fel ymarfer - daflen gwaith papur (adnodd 6a) lle mae disgyblion yn ticio os ydynt yn meddwl fod y datganiad yn gywir neu'n anghywir.
b) Fel diweddglo bydd yr athro/athrawes yn darllen y datganiad neu'n defnyddio PowerPoint i ddangos y datganiad (adnodd 6b). Gall disgyblion naill ai ddal cardiau lliw gwahanol i fyny (adnodd 6c) ar gyfer cywir ac anghywir neu sefyll ac eistedd ar gyfer cywir ac anghywir neu ddefnyddio bodiau i fyny / i lawr / hanner ffordd. Nid oes angen i'r athro/athrawes ddarllen yr holl ddatganiadau a gall ddewis rhai i'w defnyddio.
c) Fel ymarfer cinesthetig dangoswch y cardiau cywir ac anghywir (6c) ar naill ben yr ystafell ddosbarth.

Bydd yr athro/athrawes yn darllen y datganiad neu'n defnyddio'r PowerPoint i ddangos y datganiad a gofynnir i'r disgyblion fynd at y cerdyn cywir neu anghywir yn ôl eu hateb.
Mae'r atebion i'w cael isod

Datganiad 1




**Cywir**
Gall pasio sigarét canabis o amgylch i'w rannu arwain at gyhuddiadau o gyflenwi'r cyffur. Er mwyn cyflenwi cyffur, nid oes yn rhaid i arian na nwyddau gael eu cyfnewid gan mai'r cyhuddiad yw cyflenwi ac NID gwerthu.

Datganiad 2




**Anghywir**
Gellir eich anfon i'r llys a'ch carcharu am eich trosedd gyntaf. Efallai y ceir reprimand ond nid yw hyn yn awtomatig os cewch eich dal ym meddiant swm bychan o gyffuriau ar gyfer defnydd personol.

Datganiad 3




**Cywir**
Gellir cosbi tyfu planhigyn canabis gyda hyd at 14 mlynedd o garchar a / neu ddirwy a daliad eiddo.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023


Datganiad 4




**ANGHYWIR**

Ni all Meddyg Teulu ragnodi canabis ym Mhrydain Fawr. Ni chaiff manteision meddygol eu cydnabod yn swyddogol. Fodd bynnag, mae ymchwil meddygol ar waith. Am fwy o wybodaeth ewch i erthygl am olew canabis yn ein Cylchlythyr: [Cylchlythyr SchoolBeat Rhif 17]


Datganiad 5




**Cywir**

Os cewch eich euogfarnu am unrhyw drosedd cyffuriau rydych yn debygol o gael eich gwahardd rhag mynd i mewn neu weithio mewn nifer o wledydd tramor (Awstralia, Seland Newydd ac America) a gall eich euogfarn hefyd effeithio ar eich siawns o waith yn y DU.

Datganiad 6




**Anghywir**

Nid yw canabis wedi ei gyfreithloni yn y wlad hon. Mae'r Llywodraeth wedi ei ddosbarthu fel cyffur dosbarth B. Golyga hyn y gallwch gael eich arestio am fod ym meddiant canabis ar gyfer eich defnydd eich hun. Gall yr heddlu roi rhybudd terfynol mewn rhai amgylchiadau. Caiff personau o dan 18 oed eu harestio. Bydd yn rhaid hysbysu rhiant/gofalwr/oedolyn cyfrifol a rhaid iddynt fod yn bresennol pan gaiff y person ifanc ei gyfweld.


Datganiad 7




**Cywir**

Mae gofalu am gyffuriau i ffrind yn anghyfreithlon. Byddai hyn yn cael ei ystyried i fod ym meddiant sylwedd anghyfreithlon.

Datganiad 8




**Cywir**

Gall cyflenwi ecstasi, sy'n gyffur dosbarth A, gael ei gosbi gydag uchafswm dedfryd o garchar am oes, dirwy ddigyfyngiad a daliad eiddo.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## 7. Gweithgaredd Bwrdd Stori

Argraffwch y nifer sydd eu hangen o'r dalenni gweithgaredd bwrdd stori (adnodd 7a). Gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r bylchau. Bydd gofyn i'r disgyblion ddarllen ac ateb cwestiynau. Gellir cael yr atebion ar adnodd 7b, taflen atebion athrawon gweithgaredd bwrdd stori.

Gellir defnyddio PowerPoint (adnodd 7c) Stori Liam gyda'r dosbarth cyfan ynghyd â taflenni gweithgaredd bwrdd stori disgyblion (7a). Gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn i'w ddefnyddio gyda disgyblion llai abl.

Fel estyniad gyda disgyblion mwy abl, rhowch gopi o adnodd 7d iddynt - taflen weithgaredd bwrdd stori disgyblion. Gall disgyblion lunio eu llinell stori eu hunain sy'n archwilio cyflenwi a meddiant cyffur arall heblaw canabis. Bydd hyn yn gofyn am wybodaeth am ddosbarthiad y cyffur a ddewiswyd a'r cosbau sy'n gysylltiedig ag euogfarnau am feddiant, cyflenwi neu fwriad i gyflenwi.

Gellir adolygu Dosbarthiad Cyffuriau a Chosbau gan ddefnyddio; taflen Cosbau Dosbarthiadau Cyffuriau (adnodd 7e) a/neu'r PowerPoint Cosbau Dosbarthiadau Cyffuriau (adnodd 7f).

## 8. Ymarfer Agweddau

Gellid trefnu ymarfer canfod barn a thrafodaeth ddosbarth i ddilyn gan ddefnyddio'r Cardiau Agwedd a ddarperir (adnodd 8a). Gellir lawrlwytho'r rhain a'u lamineiddio. Rhannwch y dosbarth yn barau. Rhowch un cerdyn i bob pâr (18 dalen ar gael). Bydd disgyblion yn symud o gwmpas y dosbarth yn gofyn i ddisgyblion eraill wneud sylwadau ar y datganiad sydd wedi ei ysgrifennu ar eu dalen hwy. Maent yn cadw sgôr ar gyfer pob blwch (cytuno, anghytuno neu ddim yn siŵr).
Pan fydd yr holl ddisgyblion wedi cyfrannu i bob datganiad bydd y parau yn trafod eu canfyddiadau ac yn llenwi'r blwch yn y gwaelod (rydym ni'n meddwl fod…). Os oes cyfleusterau TGCh ar gael gellir graffio'r canlyniadau.
Pob pâr i roi adborth i'r dosbarth cyfan.
Anogwch y disgyblion i ystyried eu barn eu hunain ac ateb unrhyw gwestiynau gan weddill y dosbarth. I gloi bydd pob disgybl yn ysgrifennu rhywbeth y mae wedi ei ddysgu o'r wers a'r nodyn "post it". Dylent roi eu "post it" ar gefn y drws ar eu ffordd allan. Ar ddechrau'r wers nesaf dylai'r disgyblion nôl eu "post it" oddi ar gefn y drws, darllen allan yr hyn y maent wedi ei ysgrifennu er mwyn ystyried eu dysgu.

## 9. Teulu, Ffrindiau a Chymdeithas

Gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn i ddatblygu ymwybyddiaeth o ganlyniadau cymdeithasol cymryd cyffuriau ar deulu, ffrindiau, cymdeithas a dyfodol unigolyn.

1. Gan ddefnyddio cardiau pobl/sefydliadau (adnodd 9a) penderfynwch fel grŵp ar bwy yr effeithir fwayf gan ddefnydd cyffuriau rhywun. Rhowch yr atebion ar y cylch (adnodd 9b neu 9c). Rhowch y rhai a effeithir fwyaf yn agos i'r DEFNYDDIWR yn y canol.

2. Yna gall disgyblion ddewis y pum person agosaf i'r gair DEFNYDDIWR ac egluro pam a sut y cânt eu heffeithio fwyaf o'r ugain o bobl / sefydliadau a restrir. Gellir ysgrifennu'r rhain ar y ddalen waith Teulu, Ffrindiau a Chymdeithas (adnodd 9d).


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## 10. Gweithgaredd Meddyliau a Theimladau

Gall archwilio meddyliau a theimladau ar bob cam gynorthwyo i wneud y materion yn rhai real a mewnoli dysgu.  Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a dosbarthwch y ddalen llun (adnodd 10a). Gofynnwch i'r disgyblion drafod pa deimladau a meddyliau y gallai'r cymeriadau eu cael.  Gall y cofnodwr ysgrifennu eu hatebion yn y swigod meddyliau a theimladau.

Adborth i'r dosbarth cyfan.  Nid oes atebion cywir i'r gweithgaredd; fodd bynnag, cynigir y canlynol er mwyn cynorthwyo athrawon i ganolbwyntio ar syniadau'r disgyblion.

| **10a. Gweithgaredd Meddyliau a Theimladau** | | |
|---|---|---|
| ■ **Pan mai chi yw'r deliwr** | | |
| Meddyliau:<br>▪ Rwy'n bwysig<br>▪ Rwy'n fawr<br>▪ Rwy'n galed | Teimladau:<br>▪ Mawr<br>▪ Nodedig<br>▪ Pwysig | ▪ Mae fy angen |
| ■ **Pan gewch eich arestio gan yr heddlu** | | |
| Meddyliau:<br>▪ Rwy'n droseddwr<br>▪ A fyddai'n mynd i'r carchar?<br>▪ Beth ydw i wedi ei wneud? | Teimladau:<br>▪ Wedi cael braw<br>▪ Panig llwyr<br>▪ Sâl | ▪ Bach iawn<br>▪ Arswyd<br>▪ Sioc |
| ■ **Pan gaiff eich ystafell ei chwilio** | | |
| Meddyliau:<br>▪ Bydd Mam a Dad yn fy lladd i<br>▪ Alla'i ddim credu hyn | Teimladau:<br>▪ Cronig<br>▪ Cywilydd<br>▪ Euogrwydd | ▪ Arswyd<br>▪ Sioc<br>▪ Braw |
| ■ **Pan gewch reprimand** | | |
| Meddyliau:<br>▪ A fydd yr hunllef yma'n gorffen byth?<br>▪ Sut allwn i fod wedi bod mor wirion? | Teimladau:<br>▪ Crebachu<br>▪ Embaras<br>▪ Anghrediniaeth | ▪ Ofn<br>▪ Cywilydd |
| ■ **Pan fyddwch yn ystyried eich dyfodol** | | |
| Meddyliau:<br>▪ Wedi fy nghreithio am byth<br>▪ A oedd yn werth hyn i gyd?<br>▪ Mae fy mywyd wedi ei ddifetha | Teimladau:<br>▪ Dibwynt<br>▪ Gwag<br>▪ Isel fy ysbryd ac ati. | |

Fel gweithgaredd dosbarth cyfan, gofynnwch y cwestiwn canlynol i'r disgyblion.  Dywedwch wrthynt am rannu eu hateb gyda'u partner.

> Yn seiliedig ar y gweithgareddau yr ydych wedi eu cwblhau . . .
> Beth ydych chi'n ei feddwl a'i deimlo am gyffuriau anghyfreithlon?
> Beth fyddech chi'n ddweud wrth ffrind sydd wedi cynnig sylwedd anghyfreithlon i chi?

Rhowch enghreifftiau i'r dosbarth cyfan o'r atebion a gafwyd ar ffurf adborth.


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

## 11. Tybaco Anghyfreithlon

## Carwsél Torri'r Iâ Cyfreithlon/Anghyfreithlon

Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp. Rhowch ddatganiad i bob grŵp (11a), a chaniatewch amser trafod o ddwy funud iddynt benderfynu pa un ai a yw'r datganiad yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon. Cylchdrowch y datganiadau bob dwy funud a sicrhewch fod pob grŵp wedi trafod pob datganiad yn eu tro. Yna, gall pob grŵp rhoi adborth o'u trafodaethau. Bydd y daflen annog athrawon (11b) yn ich cynorthwyo gyda'r adborth.

## Erthyglau Go Iawn

Rhowch erthygl newyddion lleol neu Erthygl Go Iawn a ddarperir (11c) i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp ddarllen yr erthygl a roddwyd iddynt, a thrafod y cwestiynau canlynol.

1. Beth sydd wedi digwydd?
2. Beth oedd y canlyniadau ar gyfer y rhai a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad?
3. Beth yw'r canlyniadau posibl ar gyfer teulu'r unigolyn?
4. Beth yw'r effaith bosibl ar y gymuned ehangach?
5. Pwy yw'r enillwyr a'r collwyr yn y drosedd hon, os oes rhai o gwbl?

Yna, fel gweithgaredd ar gyfer y dosbarth cyfan, gofynnir i bob grŵp roi adborth o'u herthyglau a'u trafodaethau. Mae adnodd cwestiynau i'r disgyblion (11d) a thaflen annog athrawon (11e) i'ch cynorthwyo.



Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023